Cais am Dystiolaeth ynghylch y Lwfans Gofalwr: crynodeb o ganfyddiadau

Rhagair gan y Gweinidog

1. Mae datblygu dyfodol modern a chynaliadwy ar gyfer y Lwfans Gofalwr yn ymgymeriad pwysig ac uchelgeisiol, wedi'i seilio ar ein hymrwymiad i gefnogi gofalwyr di-dâl a chydnabod y cyfraniad hanfodol a wnânt i gymdeithas, yr economi, a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.

2. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddeall sut y gall cymorth ariannol i ofalwyr ddiwallu anghenion unigolion a theuluoedd yn well, nawr ac yn y dyfodol. Lansiwyd y Cis am Dystiolaeth i gasglu barn gofalwyr, sefydliadau cynrychioliadol, elusennau, academyddion a rhanddeiliaid eraill, gan ein helpu i adeiladu sail dystiolaeth gryfach ar gyfer datblygu polisïau yn y dyfodol.

3. O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi bod yn glir bod yn rhaid i'r gwaith hwn gael ei lywio gan brofiadau'r rhai sy'n rhyngweithio â'r Lwfans Gofalwr. Felly, gwnaethom ofyn am dystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid ar weithrediad presennol y budd-dal, yr heriau y mae gofalwyr yn eu hwynebu a chyfleoedd i wella.

4. Gwahoddwyd yr ymatebwyr i gyflwyno tystiolaeth ar draws nifer o themâu, gan gynnwys cefnogi llesiant ariannol gofalwyr, galluogi pobl i gydbwyso gofalu a chyflogaeth, gwella hygyrchedd a dealltwriaeth o'r budd-dal, lleihau beichiau gweinyddol, a sicrhau bod y system yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn effeithiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

5. Gwnaethom ymgysylltu ag ystod eang o unigolion a sefydliadau drwy gydol y broses a chawsom nifer sylweddol o gyfraniadau gwerthfawr gan ofalwyr, y rhai sy'n derbyn gofal, elusennau a sefydliadau cynrychioliadol eraill. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn rhoi cipolwg pwysig ar realiti gofalu di-dâl a'r rôl y gall cymorth ariannol ei chwarae wrth helpu gofalwyr i reoli eu cyfrifoldebau.

6. Mae gwrando ar ofalwyr a chasglu tystiolaeth gadarn yn hanfodol er mwyn gallu bwrw ati â'r broses ddiwygio. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at y Cais am Dystiolaeth ac a rannodd eu profiadau, eu safbwyntiau a'u hymchwil. Mae eu cyfraniadau'n rhoi sylfaen amhrisiadwy i ni allu ystyried yn y dyfodol sut y gellir moderneiddio cymorth i ofalwyr er mwyn cefnogi gofalwyr yn well.

7. Er bod yr heriau sy'n wynebu gofalwyr yn sylweddol, mae'r dystiolaeth a gafwyd yn dangos gwydnwch gofalwyr a'r cyfleoedd i wella cymorth. Edrychaf ymlaen at barhau â'r sgwrs hon wrth inni ystyried y canfyddiadau a chydweithio i sicrhau bod gofalwyr yn cael y gydnabyddiaeth a'r cymorth y maent yn eu haeddu.

Y Gweinidog dros Nawdd Cymdeithasol ac Anabledd, Y Gwir Anrhydeddus Syr Stephen Timms.

Crynodeb gweithredol

8. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o'r Cais am Dystiolaeth ar gyfer Lwfans Gofalwr, gan adlewyrchu'r safbwyntiau a'r profiadau a rannwyd gan ofalwyr, pobl sy'n derbyn gofal, a sefydliadau sy'n eu cynrychioli.

9. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i ymateb. Rydym yn cydnabod bod llawer o'r ymatebwyr wedi cyfrannu ochr yn ochr â chyfrifoldebau gofalu ac ymrwymiadau eraill, ac rydym yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a gymerodd i rannu eu profiadau, eu barn a'u tystiolaeth.

10. Cafwyd ymatebion o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, er bod y rhan fwyaf wedi dod o Loegr.

11. Er bod Lwfans Gofalwr ar gael yng Nghymru a Lloegr, roedd y Cais am Dystiolaeth yn gwahodd ymatebion o bob cwr o'r DU er mwyn helpu i wella dealltwriaeth o brofiadau gofalwyr a'r ffordd y caiff cymorth ei roi mewn gwahanol amgylchiadau.

12. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â ffynonellau tystiolaeth eraill, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, tystiolaeth weithredol, canfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol ac ymchwil i effaith y terfyn enillion uwch ar gyfer pobl sy'n cael Lwfans Gofalwr, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

13. Gyda'i gilydd, bydd y ffynonellau hyn yn helpu i lywio'r broses o ystyried y Lwfans Gofalwr a'r cymorth cysylltiedig i ofalwyr yn y dyfodol.

14. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth a gafwyd drwy'r Cais am Dystiolaeth. Cyflwynir canfyddiadau ar draws chwe thema, gan adlewyrchu'r pynciau a nodwyd yn y Cais am Dystiolaeth a'r cwestiynau a nodir yn Atodiad B.

15. Ar draws y chwe maes, cododd yr ymatebwyr bryderon mynych ynghylch sut mae'r Lwfans Gofalwr yn gweithio'n ymarferol. Tynnodd sawl un sylw at heriau sy'n gysylltiedig ag enillion sy'n amrywio a'r terfyn enillion presennol. Roedd llawer am gael cymorth a oedd yn haws i'w deall, yn fwy rhagweladwy ac yn adlewyrchu realiti gofalu'n well. Trafododd yr ymatebwyr hefyd effaith newidiadau sydyn mewn hawl pan fyddai enillion yn cynyddu, yn ogystal â'r cyswllt rhwng y Lwfans Gofalwr a'r Credyd Cynhwysol, a'r heriau sy'n gysylltiedig â chydbwyso cyfrifoldebau gofalu â gwaith, astudio a chyfleoedd eraill. Er bod llawer wedi mynegi ystod eang o safbwyntiau ar ddiwygiadau posibl, ni chafwyd consensws clir ar gyfer un dull unigol mewn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr yn rhannu'r un pryderon a blaenoriaethau, gan gynnwys natur fwy rhagweladwy, lleihau'r risg o ordaliadau, darparu gwybodaeth gliriach a sicrhau bod y cymorth yn adlewyrchu realiti gofalu'n well.

16. Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu'r safbwyntiau, y profiadau a'r dystiolaeth a rannwyd gan y rhai a ddewisodd ymateb. Ni ddylid ystyried eu bod yn cynrychioli pob gofalwr na phawb sy'n cael y Lwfans Gofalwr. Safbwyntiau'r ymatebwyr yw'r rhai a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn cael eu cymeradwyo gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

17. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r Cais am Dystiolaeth. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi ei hymateb yn y flwyddyn newydd.

Canfyddiadau allweddol

Roedd cydnabod gofalu yn un o'r themâu a godwyd amlaf

18. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn disgrifio'r Lwfans Gofalwr fel cymorth ariannol a chydnabyddiaeth o'r cyfraniad a wneir gan ofalwyr di-dâl. Rhannodd yr ymatebwyr bryderon ynghylch sicrwydd ariannol, a chymhlethdod cyfrifoldebau gofalu. Ar draws yr holl themâu a chwestiynau, tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cydnabod gwerth gofalu a'r cyfraniad y mae gofalwyr yn ei wneud i deuluoedd, cymunedau a chymdeithas. Roedd llawer hefyd yn cysylltu cydnabyddiaeth â phryderon ehangach ynghylch sicrwydd ariannol a'r effaith y gall cyfrifoldebau gofalu ei chael ar gyflogaeth, incwm a chyfleoedd yn y dyfodol.

Disgrifiodd llawer o'r ymatebwyr gyfrifoldebau gofalu ochr yn ochr ag awydd i weithio, astudio neu ddatblygu sgiliau newydd lle roedd hyn yn bosibl.

19. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn trafod cyflogaeth, addysg a hyfforddiant fel llwybrau pwysig at gyfleoedd yn y dyfodol, annibyniaeth ariannol a datblygiad personol. Disgrifiodd llawer yr her o gydbwyso cyfrifoldebau gofalu â gwaith, astudio a dyheadau tymor hwy. Roedd cyflwyniadau sefydliadau yn atgyfnerthu'r themâu hyn, gan dynnu sylw at rôl cyflogaeth a chyfranogiad addysgol wrth gefnogi canlyniadau tymor hwy i ofalwyr.

Roedd yr ymatebwyr yn aml yn tynnu sylw at bwysigrwydd system sy'n hawdd ei deall ac sy'n rhoi hyder ynghylch sut y bydd penderfyniadau'n effeithio ar gymorth

20. Disgrifiodd llawer bryderon ynghylch cymhlethdod gweinyddol, gordaliadau ac ansicrwydd ynghylch sut y byddai rheolau'n cael eu cymhwyso'n ymarferol. Yn aml, roedd yr ymatebwyr yn cysylltu gwybodaeth glir, canlyniadau rhagweladwy a gohebiaeth amserol â mwy o hyder yn y system a llai o risg o ansicrwydd ariannol. Yn yr un modd, tynnodd sefydliadau sylw at bwysigrwydd symlrwydd, cysondeb a dealltwriaeth hawlwyr.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn ystyried bod cyfrifoldebau gofalu yn anodd eu cysoni â rheolau a strwythurau presennol

21. Ym mhob rhan o'r Cais am Dystiolaeth, nododd llawer o'r ymatebwyr fod gofalu yn rhan sylweddol o'u bywydau beunyddiol. Yn aml, eglurodd yr ymatebwyr y gall cyfrifoldebau gofalu fod yn anodd eu rhagweld, y gallant newid dros amser ac y gall fod gwahaniaethau sylweddol rhwng unigolion a theuluoedd.

22. Disgrifiodd llawer o bobl ystod eang o amgylchiadau, gan gynnwys enillion sy'n amrywio, gofalu am fwy nag un person, trefniadau gofalu ar y cyd, a gofalu y tu hwnt i oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Teimlai llawer nad oedd y rheolau a'r strwythurau presennol bob amser yn adlewyrchu'r profiadau hyn a gwnaethant ddisgrifio heriau wrth geisio cydbwyso cyfrifoldebau gofalu â chyflogaeth, addysg a systemau cymorth.

23. Er bod safbwyntiau'n amrywio ar ddiwygiadau penodol, roedd yr ymatebwyr yn aml yn rhannu profiadau tebyg o geisio gosod cyfrifoldebau gofalu cymhleth a newidiol o fewn systemau nad oeddent bob amser wedi'u cynllunio i adlewyrchu realiti gofalu. Cafwyd cytundeb eang ymhlith yr ymatebwyr o ran llawer o'r heriau y

mae gofalwyr yn eu profi, ond cyflwynwyd ystod ehangach o safbwyntiau ar ddulliau posibl o newid.

24. Roedd y cyflwyniadau gan sefydliadau yn atgyfnerthu'r themâu hyn yn fras. Er bod y sefydliadau yn aml yn canolbwyntio ar sut mae'r system yn gweithredu'n ymarferol, roeddent yn aml yn adleisio pryderon ynghylch cydnabyddiaeth, sicrwydd ariannol, cymhlethdod, dealltwriaeth a'r angen i adlewyrchu ystod eang o amgylchiadau gofalu. Helpodd tystiolaeth sefydliadol hefyd i esbonio pam y gallai'r ymatebwyr fod wedi profi heriau penodol ac amlygodd ystyriaethau ymarferol yn ymwneud â chyfathrebu, gweinyddu a dylunio systemau.

Y rhai a ymatebodd

25. Roedd y Cais am Dystiolaeth ar agor i unrhyw un a oedd am gyfrannu.

26. Cafwyd 3,805 o ymatebion gan ystod eang o unigolion, gan gynnwys gofalwyr a phobl nad ydynt yn ofalwyr. Roedd yr ymatebion yn ddienw.

27. Ochr yn ochr ag ymatebion unigol, cawsom 55 o gyflwyniadau gan sefydliadau sy'n cynrychioli gofalwyr, gan gynnwys cynghorwyr hawliau lles, elusennau, ymchwilwyr, awdurdodau lleol a chyrff cynrychioliadol eraill. Roedd y cyflwyniadau hyn yn seiliedig ar ymchwil, arbenigedd proffesiynol ac ymgysylltu uniongyrchol â gofalwyr i ddarparu tystiolaeth ar weithrediad y system bresennol a'r heriau y mae gofalwyr yn eu hwynebu mewn gwahanol amgylchiadau.

28. Cafwyd ymatebion o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac roeddent yn adlewyrchu ystod eang o amgylchiadau gofalu.

Cwmpas daearyddol

Tabl 1: Niferoedd yr ymatebwyr yn ôl gwlad yn y DU

Gwlad	Ymatebwyr
Lloegr	**3,069**
Cymru	**245**
Yr Alban	**151**
Gogledd Iwerddon	**47**

Noder: Gellid nodi gwlad yn y DU ar gyfer 3,512 o'r 3,805 o ymatebion unigol. Ar gyfer y 293 o ymatebion sy'n weddill, nid oedd y wlad yn glir neu ni ellid ei nodi.

Mathau o ymatebwyr

29. Cyflwynwyd mwy na 90% o'r ymatebion gan ofalwyr, gan gynnwys y rhai sy'n cael Lwfans Gofalwr a gofalwyr nad oeddent yn cael Lwfans Gofalwr. Cafwyd ymatebion hefyd gan bobl sy'n derbyn gofal a gan sefydliadau sy'n cynrychioli gofalwyr a rhanddeiliaid eraill.

Oedran

30. Roedd lefelau cyfranogiad ar eu huchaf ymhlith ymatebwyr rhwng 35 a 64 oed, gyda'r grwpiau mwyaf rhwng 45 a 54 oed a rhwng 55 a 64 oed. Cafwyd ymatebion hefyd gan ofalwyr iau o dan 25 oed a gofalwyr hŷn 65 oed a throsodd.

Tabl 2: Grŵp oedran yr ymatebwyr

Grŵp oedran	Canran (%)
O dan 25 oed	0.9
25 i 34 oed	6.5
35 i 44 oed	24.5
45 hyd at 54 oed	29.8
55 hyd at 64 oed	27.8
65 oed a throsodd	10.2
Gwell ganddynt beidio â dweud	0.3

Rhywedd

31. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unigol yn hunanddiffinio fel menyw, roedd cyfran lai yn hunanddiffinio fel dyn a llai fel rhyweddau eraill fel y nodir yn nhabl 3 isod.

Tabl 3: Hunaniaeth rhywedd yr ymatebwyr

Hunaniaeth rhywedd	Canran (%)
Menyw	85
Dyn	13

Anneuaidd	1
Arall	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	1

Sut y gwnaethom ddadansoddi'r dystiolaeth

32. Dadansoddwyd yr ymatebion gan ddefnyddio cyfuniad o ddadansoddi meintiol a dadansoddi thematig. O ystyried y nifer mawr o ymatebion a gafwyd, mabwysiadodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ddull dadansoddol dan arweiniad dynol wedi'i gefnogi gan ddeallusrwydd artiffisial (AI), gan sicrhau y gallai gwybodaeth gael ei phrosesu'n gyson ac yn effeithlon ar raddfa fawr. Adolygwyr dynol oedd yn gyfrifol o hyd am ddehongli, cyd-destunoli, a llunio barn ar bolisïau. Ystyriwyd yr ymatebion yn erbyn y meysydd cwestiynau cyhoeddedig a fframwaith thematig trawsbynciol. Gallai ymateb gyfrannu at fwy nag un canfyddiad lle roedd yn codi sawl mater cysylltiedig.

33. Ynghyd â'r dadansoddiad thematig, cynhaliwyd adolygiadau wedi'u targedu ar gyfer cwestiynau penodol a ofynnwyd fel rhan o'r Cais am Dystiolaeth. Defnyddiwyd yr adolygiadau hyn i nodi nifer a chyfran yr ymatebwyr a fynegodd safbwyntiau penodol lle gellid sefydlu nodwedd glir a dibynadwy. Lle nad oedd meintioli cadarn yn bosibl, cyflwynir y canfyddiadau ar ffurf ansoddol.

34. Gwiriodd adolygwyr polisi ac adolygwyr dadansoddol yr allbynnau i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyson a bod modd eu cysylltu â'r dystiolaeth sylfaenol. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C.

Yr hyn a glywsom

35. Ar draws y Cais am Dystiolaeth, rhannodd yr ymatebwyr ystod eang o brofiadau o ofalu a chael cymorth drwy'r Lwfans Gofalwr. Nodir y rhain isod. Er bod safbwyntiau ar newidiadau polisi penodol yn aml yn amrywio, disgrifiodd llawer o'r ymatebwyr heriau a blaenoriaethau sylfaenol tebyg. Roedd y rhain yn cynnwys cydnabod cyfrifoldebau gofalu, lleihau cymhlethdod, rhoi cymorth clir a rhagweladwy, a gwneud rheolau a phrosesau’n haws i’w deall. Cododd yr ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch pwysau ariannol, gordaliadau a'r cyswllt rhwng gwahanol fathau o gymorth.

36. Mae cyflwyniadau gan sefydliadau wedi cyfrannu at y canfyddiadau ym mhob rhan o'r adroddiad hwn a gwnaethant ddarparu rhagor o dystiolaeth am brofiadau gofalwyr a sut mae'r system bresennol yn gweithredu'n ymarferol. Roedd y cyflwyniadau hyn yn adlewyrchu'n fras y profiadau a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr unigol, gan gynnwys effaith cyfrifoldebau gofalu ar gyflogaeth, sicrwydd ariannol a mynediad at gymorth. Gwnaethant hefyd ddarparu tystiolaeth ychwanegol ar gymhlethdod systemau, rheolau o ran enillion, y cyswllt rhwng budd-daliadau a phwysigrwydd cydnabod cyfrifoldebau gofalu. Ceir crynodeb o'r dystiolaeth hon drwy'r adroddiad.

Patrymau modern gwaith am dâl

Trosolwg

37. Mae'r bennod hon yn crynhoi'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym am ddeall y rheolau o ran enillion, rheoli enillion sy'n amrywio a dulliau posibl o gyfrifo

cyfartaledd enillion. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod yn deall y rheolau o ran enillion, cododd llawer bryderon ynghylch sut maent yn gweithredu'n ymarferol, yn enwedig lle mae enillion yn amrywio neu'n newid yn annisgwyl.

Roedd yr ymatebwyr yn deall y rheolau o ran enillion ar y cyfan, ond gwnaethant godi pryderon ynghylch sut maent yn gweithredu'n ymarferol.

38. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor dda roeddent yn deall y rheolau presennol ynghylch sut mae enillion yn effeithio ar y Lwfans Gofalwr, nododd 68.8% eu bod yn eu deall “yn dda iawn” neu “yn eithaf da”. Fodd bynnag, cododd llawer o'r ymatebwyr bryderon ynghylch sut mae'r rheolau'n gweithredu'n ymarferol, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau gwaith, enillion sy'n amrywio, gordaliadau a newidiadau sydyn mewn hawliau.

Gofalwyr ag enillion sy'n amrywio

39. Disgrifiodd llawer o'r ymatebwyr yr anawsterau a achosir gan y terfyn enillion presennol, lle gall hawl ddod i ben yn dilyn cynnydd cymharol fach neu dros dro mewn enillion. Yna aml, cododd y rhai a roddodd[1] ymatebion o sylwedd i gwestiynau ar enillion sy'n amrywio, cyfrifo cyfartaledd enillion a thapr posibl mewn enillion, bryderon ynghylch gwaith shifft, gwaith tymhorol, goramser a chontractau dim oriau. Roedd y rhain yn tynnu sylw at sut y gallai amrywiadau mewn enillion arwain at ordaliadau a newidiadau sydyn mewn hawliau. Dywedodd pobl wrthym am yr effaith y gallai hyn ei chael ar gyllid aelwydydd, penderfyniadau am waith a hyder wrth ymgymryd ag oriau ychwanegol neu dderbyn codiadau cyflog.

40. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr sut y gellid gwella'r system i gefnogi gofalwyr ag enillion sy'n amrywio'n well, ffyrdd mwy rhagweladwy o gyfrifo cyfartaledd enillion oedd y dull a oedd yn cael ei ffafrio ymhlith y rhai a fynegodd ddewis clir.

Tabl 4: Safbwyntiau ar enillion sy'n amrywio

Categori	Wedi mynegi dewis clir y gellid ei gategoreiddio	Wedi rhoi ateb perthnasol	Canran
A. Mwy rhagweladwy	738	3,388	21.8%
B. Mwy o hyblygrwydd	376	3,388	11.1%
C. Rhagweladwyedd a hyblygrwydd	281	3,388	8.3%
D. Dim safbwynt clir*	1,993	3,388	58.8%

Noder: Er bod llawer o'r ymatebwyr wedi rhoi sylwadau am enillion sy'n amrywio, ni fynegodd y rhan fwyaf ohonynt ddewis clir o blaid rhagweladwyedd, hyblygrwydd, neu gyfuniad o'r ddau.

[1] Roeddem yn ystyried bod ymateb o sylwedd yn un a oedd yn darparu sylwadau, tystiolaeth neu safbwyntiau ar un neu fwy o gwestiynau'r Cais am Dystiolaeth. Ni chafodd ymatebion a oedd yn cynnwys ymholiadau gweinyddol, cyflwyniadau dyblyg neu geisiadau am wybodaeth yn unig eu dosbarthu fel rhai o sylwedd.

Noder: Mae rhai canrannau wedi'u talgrynnu i un lle degol ac efallai na fyddant yn creu cyfanswm o 100%.

41. Dywedodd llawer o bobl wrthym fod ansicrwydd ynghylch sut y byddai enillion yn effeithio ar y Lwfans Gofalwr wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau ynghylch gweithio oriau ychwanegol, derbyn goramser, neu chwilio am gyfleoedd i gynyddu eu henillion.

42. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn cyfeirio at gyfyngu oriau gwaith, gwrthod shifftiau ychwanegol a goramser, ac osgoi cyfleoedd gwaith oherwydd pryderon ynghylch hawl a gordaliadau. Nododd rhai eu bod yn poeni am wneud camgymeriadau, colli hawl yn annisgwyl neu orfod ad-dalu arian yn ddiweddarach.

43. Roedd hyn yn arbennig o gyffredin ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn hunangyflogedig neu yr oedd eu henillion yn amrywio oherwydd gwaith shifft, gwaith tymhorol, goramser, gwaith yn ystod y tymor neu gontractau dim oriau. Dywedodd rhai pobl wrthym fod eu patrymau gwaith yn ei gwneud hi'n anoddach deall ymlaen llaw sut y byddai eu henillion yn cael eu trin. Roedd hyn yn arbennig o amlwg i'r rhai â newidiadau bach neu dros dro yn eu henillion nad oeddent yn adlewyrchu eu hamgylchiadau tymor hwy.

“Dylai fod ffyrdd mwy rhagweladwy o gyfrifo cyfartaledd enillion rhywun drwy eu hasesu ar ddiwedd y flwyddyn dreth.”

Gofalwr dienw sy'n gweithio

“Mae angen sefydlogrwydd ar ofalwyr felly dylid canolbwyntio ar ddod o hyd i ffyrdd mwy sefydlog a rhagweladwy.”

Gofalwr dienw sy'n gweithio

Cyfrifo cyfartaledd enillion

44. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a allai cyfrifo cyfartaledd enillion dros gyfnodau penodol helpu gofalwyr ag enillion sy'n amrywio, roedd sawl un yn cefnogi'r syniad fel ffordd o roi mwy o sicrwydd ynghylch hawl ac adlewyrchu enillion sy'n amrywio yn well.

45. Roedd eraill yn cefnogi proses cyfrifo cyfartaledd ag amodau, megis mwy o hyblygrwydd, mesurau diogelwch rhag canlyniadau anfwriadol, neu newidiadau ehangach i'r system. Gyda'i gilydd, roedd yr ymatebwyr hyn yn fwy niferus na'r rhai a oedd yn gwrthwynebu proses cyfrifo cyfartaledd.

46. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn aml yn canolbwyntio mwy ar y canlyniadau y gallai cyfrifo cyfartaledd eu cyflawni nag ar unrhyw fodel. Nododd llawer eu bod am gael trefniadau a fyddai’n cynnig mwy o sicrwydd, yn adlewyrchu amgylchiadau sy’n newid ac yn lleihau effaith cynnydd bach neu dros dro mewn enillion.

47. Roedd y safbwyntiau yn amrywio o ran sut y dylai proses cyfrifo cyfartaledd weithio yn ymarferol. Awgrymodd yr ymatebwyr amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys cyfnodau cyfrifo cyfartaledd sefydlog, cyfnodau asesu hirach a mwy o hyblygrwydd i adlewyrchu gwahanol batrymau ac amgylchiadau gwaith. Ymhlith y rhai a awgrymodd gyfnod cyfrifo cyfartaledd penodol, 16 wythnos a grybwyllwyd amlaf. Fodd bynnag, cynigiwyd ystod eang o gyfnodau amgen hefyd, ac ni chafwyd consensws clir ar gyfer unrhyw ddull unigol.

“Dylid cyfrifo cyfartaledd enillion dros gyfnod penodol hirach… Mae cyfrifoldebau gofalu yn anrhagweladwy… Byddai cyfnod cyfrifo cyfartaledd hirach yn rhoi sefydlogrwydd.”

Gofalwr dienw sy'n gweithio

48. Roedd lleiafrif sylweddol yn gwrthwynebu cyfrifo cyfartaledd yn gyfan gwbl. Yn aml, roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau na ddylid cysylltu'r Lwfans Gofalwr ag enillion, y dylid anwybyddu enillion yn gyfan gwbl, neu y byddai dulliau eraill yn well.

“Gan y gallai fod angen i ofalwyr barhau i astudio neu weithio, mae angen i’r system taliadau fod yn fwy hyblyg.”

Gofalwr dienw

Tabl 5: Safbwyntiau ar gyfrifo cyfartaledd

Safbwynt	Ymatebion	Ymatebion o sylwedd	Canran (%)
Yn cefnogi proses cyfrifo cyfartaledd	1,043	3,201	32.6%
Yn gwrthwynebu proses cyfrifo cyfartaledd	866	3,201	27.1%
Cymorth cymysg / amodol	352	3,201	11.0%
Dim safbwynt clir*	940	3,201	29.4%
Cyfanswm	3,201	3,201	100.0%

Noder: Trafododd rhai o'r ymatebwyr enillion sy'n amrywio a materion cysylltiedig ond ni wnaethant fynegi barn glir ynghylch a ddylid cyfrifo cyfartaledd enillion dros gyfnodau penodol.

Noder: Mae rhai canrannau wedi'u talgrynnu i un lle degol.

Tystiolaeth sefydliadol

49. Ar y cyfan, roedd y cyflwyniadau gan sefydliadau yn atgyfnerthu pryderon ynghylch enillion sy'n amrywio, ansicrwydd a'r effaith y gall rheolau enillion ei chael ar benderfyniadau gwaith. Tynnodd llawer o sefydliadau sylw at y ffaith y gallai enillion gofalwyr amrywio oherwydd cyfrifoldebau gofalu sy'n newid, gwaith rhan-amser, gwaith shifft, hunangyflogaeth a phatrymau gwaith afreolaidd eraill.

50. Roedd cefnogaeth o blaid dulliau mwy rhagweladwy o gyfrifo cyfartaledd enillion yn thema gyffredin ar draws y rhan fwyaf o gyflwyniadau sefydliadol. Yn aml, roedd sefydliadau’n tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gofalwyr yn gallu deall sut y byddai enillion yn effeithio ar eu hawl, i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am waith ac osgoi gordaliadau annisgwyl.

51. Tynnodd sawl sefydliad sylw at bwysigrwydd gwybodaeth glir, triniaeth gyson a dulliau sy'n hawdd i ofalwyr eu deall a'u llywio. Roedd hyn yn cynnwys rheolau cyfrifo cyfartaledd cyhoeddedig, enghreifftiau ymarferol a gwybodaeth glir am sut y byddai newidiadau mewn enillion yn effeithio ar hawl. Awgrymodd rhai hefyd

hysbysiadau cynharach ac adnoddau a fyddai'n galluogi gofalwyr i weld sut y gallai enillion ychwanegol effeithio ar eu cymorth cyn ymgymryd â gwaith ychwanegol.

Tapr enillion

Trosolwg

52. Mae'r bennod hon yn crynhoi'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym am gyflwyno unrhyw dapr enillion a sut y gallai unrhyw dapr yn y dyfodol weithio'n ymarferol. Ar hyn o bryd, mae'r Lwfans Gofalwr yn dod i ben os yw enillion person yn fwy na'r terfyn enillion wythnosol. Un dewis arall posibl fyddai i swm y Lwfans Gofalwr leihau'n raddol wrth i enillion godi uwchlaw swm penodol, yn hytrach na dod i ben yn llwyr. Gelwir hyn yn dapr enillion.

53. Trafododd yr ymatebwyr ddwy agwedd ar wahân ar dapr enillion posibl. Y cyntaf oedd sut y dylai cymorth leihau wrth i enillion gynyddu. Yr ail oedd lefel yr enillion y dylai unrhyw dapr ddechrau a gorffen arni.

54. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o blaid mynd i'r afael â'r golled sydyn mewn cymorth a all ddigwydd pan fydd enillion yn fwy na'r terfyn. Roedd llawer o'r farn bod tapr yn ffordd bosibl o wneud hyn. Fodd bynnag, roedd barn yn amrywio ynghylch ble y dylai tapr ddechrau, pa mor gyflym y dylai cymorth leihau ac a ddylai enillion effeithio ar hawl o gwbl. Ni nododd y Cais am Dystiolaeth un dull yr oedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'n gweithio cystal i bawb.

Barn ar sut y gallai tapr weithio

55. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr am wahanol ddulliau o greu tapr enillion, y dewis mwyaf cyffredin oedd galluogi pobl i ennill mwy cyn i'r Lwfans Gofalwr ddechrau lleihau, gyda chymorth wedyn yn lleihau'n gyflymach. Roedd yr opsiwn hwn yn cael ei ffafrio gan 40.3% o'r 3,612 o ymatebwyr a roddodd ymateb o sylwedd. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw ddull unigol gefnogaeth gan fwyafrif, ac ni fynegodd tua thraean ddewis clir rhwng y dulliau a gyflwynwyd.

> ***"Dim mwy o 'Ymylon Clogwyni': Mae'n annheg bod ennill ychydig uwchlaw terfyn yn golygu colli popeth. Mae angen creu tapr graddol sy'n golygu na fyddaf yn cael fy nghosbi os byddaf yn ymgymryd ag ychydig mwy o waith."***
>
> **Gofalwr dienw**

Tabl 6: Dulliau a ffefrir ar gyfer tapr.

Dull a ffefrir	Ymatebwyr	Canran (%)
Ennill mwy cyn i'r Lwfans Gofalwr ddechrau lleihau, ond yna ei leihau'n gyflymach.	1,455	40.3

Dechrau lleihau'r Lwfans Gofalwr ar lefel enillion is, ac yna ei leihau'n fwy graddol.	948	26.2
Dull arall	70	1.9
Dim dewis clir*	1,139	31.6%
Cyfanswm yr ymatebion o sylwedd	**3,612**	**100.0%**

***Noder: Nid yw "dim dewis clir" yn golygu na wnaeth yr ymatebwyr ateb y cwestiwn. Rhoddodd yr ymatebwyr hyn sylwadau o sylwedd ond ni wnaethant fynegi dewis clir rhwng y dulliau a gyflwynwyd.**

Noder: Mae rhai canrannau wedi'u talgrynnu i un lle degol.

Yr hyn yr oedd yr ymatebwyr am i dapr ei gyflawni

56. Yn aml, roedd yr ymatebwyr yn trafod y canlyniadau yr oeddent am i dapr eu cyflawni yn hytrach na'i ddyluniad manwl. Roedd y blaenoriaethau cyffredin yn cynnwys:

- osgoi colli cymorth yn sydyn,
- sicrhau bod gofalwyr yn well eu byd pan fyddai eu henillion yn cynyddu,
- sicrhau bod y system yn rhagweladwy ac yn hawdd ei deall,
- adlewyrchu amgylchiadau gwaith a gofalu gwahanol,
- lleihau'r risg o ordaliadau a dyled annisgwyl.

57. Yn aml, roedd yr ymatebwyr yn ystyried bod y blaenoriaethau hyn yn gysylltiedig. Roedd llawer am gael trefniadau a oedd yn cynnig sicrwydd ariannol ac yn cefnogi cyfleoedd i weithio, gan gydnabod cyfrifoldebau gofalu a rhoi cymorth y gallai pobl ei ddeall a chynllunio o'i gwmpas.

Pa flaenoriaethau oedd bwysicaf i'r ymatebwyr

58. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr beth ddylai fod bwysicaf wrth ddylunio newidiadau i sut mae enillion yn effeithio ar y Lwfans Gofalwr, symlrwydd a rhagweladwyedd oedd y blaenoriaethau uchaf.

59. Nododd llawer o'r ymatebwyr ystod o flaenoriaethau wrth ystyried sut y dylai enillion effeithio ar y Lwfans Gofalwr. Er eu bod wedi blaenoriaethu'r ffactorau hyn yn wahanol, tynnodd sawl un sylw at bwysigrwydd trefniadau sy'n glir, yn rhagweladwy ac yn ddigon hyblyg i adlewyrchu gwahanol amgylchiadau. Disgrifiodd llawer o bobl hefyd anawsterau a achosir gan newidiadau sydyn mewn hawliau pan fyddai enillion yn cynyddu a'r effaith y gallai hyn ei chael ar benderfyniadau gwaith a chyllid y cartref. Cwblhaodd cyfanswm o 3,469 o ymatebwyr y broses raddio, gyda symlrwydd a rhagweladwyedd yn dod i'r amlwg fel blaenoriaethau allweddol.

60. Bod yn syml ac yn hawdd ei ddeall oedd y peth a restrwyd gyntaf amlaf, a ddewiswyd gan 39.8% o'r ymatebwyr. Roedd hefyd ymhlith y tair blaenoriaeth uchaf a nodwyd gan 86.5%

Tabl 7: Blaenoriaethau tapr

Ffactor	Cyntaf yn y rhestr	Yn y tair uchaf

Yn syml ac yn hawdd ei ddeall	39.8%	86.5%
Caniatáu hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau gwahanol	26.3%	80.0%
Yn rhagweladwy (gwybod ymlaen llaw sut mae enillion yn effeithio ar daliadau)	21.4%	79.8%
Lleihau'r risg o ordaliadau	8.4%	36.7%
Cadw'r system yn fforddiadwy	4.1%	16.9%

***Canrannau wedi'u talgrynnu i un lle degol.**

61. Rhoddodd yr ymatebwyr bwyslais arbennig ar symlrwydd, hyblygrwydd a rhagweladwyedd. Roedd tua phedwar o bob pump o'r ymatebwyr wedi cynnwys hyblygrwydd a rhagweladwyedd ymhlith eu tair prif flaenoriaeth, gan awgrymu bod llawer am gael trefniadau a oedd yn glir ac yn bendant gan hefyd adlewyrchu amgylchiadau gwahanol.

Barn ar ble y dylai tapr ddechrau a gorffen

62. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ble y dylai tapr enillion ddechrau a gorffen, roedd y safbwyntiau'n amrywio ac ni chafwyd consensws clir ar gyfer unrhyw ddull unigol.


63. Mynegodd yr ymatebwyr amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch ble y dylai unrhyw dapr ddechrau a lefel yr enillion y dylai cymorth ddod i ben arni. Defnyddiodd llawer Gwestiwn 8 hefyd i drafod materion ehangach, gan gynnwys digonolrwydd y Lwfans Gofalwr, caledi ariannol, a ddylai cyfyngiadau enillion barhau a sut mae'r Lwfans Gofalwr yn rhyngweithio â'r Credyd Cynhwysol.

64. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai gofalwyr allu ennill mwy cyn i'r Lwfans Gofalwr ddechrau lleihau, gan ddadlau y byddai hyn yn cynnig mwy o sicrwydd ariannol ac yn galluogi gofalwyr i gynyddu eu henillion heb effaith uniongyrchol ar gymorth.

65. Rhoddodd eraill fwy o bwyslais ar gynnal cymorth ar draws ystod ehangach o enillion drwy gyflwyno gostyngiad mwy graddol mewn hawliau.

66. Ymhlith yr ymatebwyr a roddodd ymateb o sylwedd, ni wnaeth (54.8%) fynegi barn glir ynghylch a ddylai tapr ddechrau uwchlaw, ar neu islaw'r terfyn enillion cyfredol.

Ffigur 2: Barn ar dapr enillion



Dim dewis clir - Noder: Rhoddodd yr ymatebwyr yn y categori "Dim safbwynt clir" sylwadau ar y tapr enillion a materion cysylltiedig ond ni wnaethant fynegi dewis clir ar gyfer terfyn enillion.

67. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi pwynt cychwyn uwch yn aml yn teimlo y dylai gofalwyr allu cynyddu eu henillion cyn i'w cymorth ddechrau lleihau. Roedd rhai yn cysylltu hyn â lefelau cyflog, annibyniaeth ariannol a chefnogi gofalwyr i aros mewn gwaith. Cynigiodd yr ymatebwyr amrywiaeth o safbwyntiau hefyd ynghylch ble y dylai cymorth ddod i ben, ond trafodwyd pwyntiau terfyn yn llai aml na mannau cychwyn ac ni nododd y cais am dystiolaeth ddull a ffefrir.

"Mae'r terfyn presennol yn anghywir yn annog pobl i beidio â derbyn swydd uwchlaw'r isafswm cyflog. Dylid diwygio hyn i dapr uwchlaw'r lefel bresennol o £204."

Gofalwr dienw

Deall a chyfleu tapr

68. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn tynnu sylw at bwysigrwydd gallu deall sut y byddai unrhyw dapr yn effeithio arnynt yn ymarferol. Dywedodd pobl wrthym eu bod am gael gwybodaeth glir a fyddai'n eu helpu i ragweld sut y gallai newidiadau mewn enillion effeithio ar eu Lwfans Gofalwr a'u hincwm cyffredinol.

69. Canllawiau ysgrifenedig clir oedd yr awgrym cyfathrebu mwyaf cyffredin. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at lythyrau, negeseuon e-bost, gwybodaeth ar GOV.UK ac esboniadau mewn iaith glir yn dangos sut y byddai tapr yn effeithio ar hawl. Roedd llawer hefyd am gael enghreifftiau ymarferol neu adnoddau digidol a fyddai'n eu galluogi i archwilio effaith newidiadau mewn enillion cyn derbyn gwaith ychwanegol.

70. Tynnodd yr ymatebwyr sy'n cael Lwfans Gofalwr a Chredyd Cynhwysol sylw hefyd at bwysigrwydd gwybodaeth sy'n dangos sut y byddai newidiadau mewn enillion yn effeithio ar eu cymorth cyffredinol. Awgrymodd eraill hysbysiadau ymlaen llaw neu nodiadau atgoffa cyn i newidiadau yn y taliad ddod i rym.

Tystiolaeth sefydliadol

71. Ar y cyfan, roedd cyflwyniadau sefydliadol o blaid disodli'r rheol enillion ymyl clogwyn bresennol â thapr. Gwnaethant dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod

unrhyw drefniadau yn y dyfodol yn syml, yn rhagweladwy ac yn hawdd eu deall, yn lleihau'r risg o ordaliadau ac yn cefnogi gofalwyr i aros mewn gwaith. Pwysleisiodd sefydliadau hefyd yr angen i adlewyrchu amgylchiadau cyflogaeth a gofalu gwahanol ac osgoi gwneud sefyllfa gofalwyr yn waeth o ganlyniad i newid.

72. Cododd llawer o sefydliadau nifer o faterion ymarferol hefyd yr oeddent yn teimlo y byddai angen eu hystyried. Roedd y rhain yn cynnwys modelu gwahanol opsiynau tapr cyn gwneud penderfyniadau, ystyried sut y byddai tapr yn gweithio ochr yn ochr â chyfrifo cyfartaledd enillion a Chredyd Cynhwysol, darparu enghreifftiau ymarferol a dulliau cyfrifo, a sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau hygyrch. Rhybuddiodd rhai hefyd y dylid osgoi cyflwyno cymhlethdod newydd neu greu ymyl clogwyn arall mewn man arall yn y system.

73. Er bod safbwyntiau yn amrywio mewn perthynas â manylion dylunio manwl, dangosodd rhai sefydliadau sut y gallai tapr weithredu yn ymarferol. Er enghraifft, cynigiodd rhai y dylid caniatáu enillion uwchlaw'r terfyn presennol cyn lleihau'r cymorth yn raddol drwy gyfradd tapr sefydlog. Ar y cyfan, roedd sefydliadau'n canolbwyntio llai ar gyfradd benodol nag ar gyflawni canlyniadau rhagweladwy y gallai gofalwyr eu deall a chynllunio o'u cwmpas.

Lwfans Gofalwr a Chredyd Cynhwysol

Trosolwg

74. Mae'r bennod hon yn crynhoi'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym am sut mae'r Lwfans Gofalwr a'r Credyd Cynhwysol yn cydweithio i bobl sy'n cael y ddau fudd-dal.

75. Yn aml, disgrifiodd yr ymatebwyr anawsterau wrth ddeall sut mae'r Lwfans Gofalwr a'r Credyd Cynhwysol yn cydweithio yn ymarferol. Roedd llawer yn ansicr ynghylch eu hawl gyffredinol, sut roedd didyniadau'n cael eu cymhwyso a sut y gallai newidiadau mewn enillion neu amgylchiadau effeithio ar gyfanswm y cymorth roeddent yn ei gael. Cododd sefydliadau bryderon tebyg a thynnwyd sylw at bwysigrwydd gwybodaeth gliriach a threfniadau gweinyddu mwy cydgysylltiedig rhwng y ddau fudd-dal.

Deall hawl gyffredinol

76. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr sut y gallai cymorth drwy'r Lwfans Gofalwr a'r Credyd Cynhwysol weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd, tynnodd llawer sylw at bryderon ynghylch deall eu hawl gyffredinol a sut mae'r ddau fudd-dal yn rhyngweithio.

77. Gwnaeth bron tri chwarter yr ymatebwyr a roddodd ymateb o sylwedd nodi pryder, awgrymu gwelliant, neu gwnaethant y ddau.

78. Er bod yr ymatebwyr wedi disgrifio'r materion hyn mewn gwahanol ffyrdd, roeddent yn aml yn gysylltiedig â phryderon ehangach ynghylch deall effaith gyfunol y Lwfans Gofalwr a'r Credyd Cynhwysol a'r cymorth y gallai gofalwyr ddisgwyl ei gael yn gyffredinol.

Cyfathrebu a gweinyddu

79. Yn aml, tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd esboniadau clir yn dangos sut mae'r Lwfans Gofalwr a'r Credyd Cynhwysol yn cydweithio. Roedd

llawer am gael gwybodaeth gliriach am gyfanswm eu hawl, didyniadau a sut y byddai newidiadau mewn enillion neu amgylchiadau yn effeithio ar eu cymorth cyffredinol.

80. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw hefyd at yr heriau sy'n gysylltiedig â llywio rheolau a phrosesau ar wahân. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys gwybodaeth gliriach a mwy personol, trefniadau gweinyddu symlach a chyfrifiadau mwy cydgysylltiedig rhwng y ddau fudd-dal. Roedd rhai am i wybodaeth gael ei darparu mewn un lle, yn hytrach na gorfod deall esboniadau ar wahân ar gyfer pob budd-dal.

“Dylai’r Adran sicrhau bod Lwfans Gofalwr a Chredyd Cynhwysol yn cydweithio mewn ffordd symlach a mwy tryloyw. Mae llawer o ofalwyr o'r farn bod y system bresennol yn ddryslyd, yn enwedig pan fydd un budd-dal yn effeithio ar swm un arall."

Gofalwr Dienw nad yw'n cael Lwfans Gofalwr

Cydnabod cyfrifoldebau gofalu o fewn y Credyd Cynhwysol

81. Trafododd rhai o'r ymatebwyr y cyswllt rhwng Lwfans Gofalwr a Chredyd Cynhwysol o ran cydnabyddiaeth. Gwnaethant ddisgrifio'r Lwfans Gofalwr fel cydnabyddiaeth o'r gofal a ddarparwyd ganddynt a chwestiynu a oedd y gydnabyddiaeth honno'n parhau i fod yn weladwy pan oedd y Lwfans Gofalwr yn cael ei ystyried fel rhan o gyfrifiadau'r Credyd Cynhwysol.

Tystiolaeth sefydliadol

82. Roedd cyflwyniadau gan sefydliadau yn adleisio llawer o'r pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod gofalwyr yn aml yn poeni am gyfanswm lefel y cymorth yn hytrach na rheolau unigol budd-daliadau ar wahân. Awgrymodd sefydliadau y gall fod yn anodd deall lle mae gwahanol gyfrifiadau, didyniadau a gofynion adrodd yn berthnasol ar draws y ddau fudd-dal.

83. Tynnodd llawer o sefydliadau sylw hefyd at y potensial ar gyfer dryswch lle mae enillion yn cael eu trin yn wahanol ar draws y ddau fudd-dal a lle mae angen i ofalwyr ddeall yr effaith gyfunol ar eu hincwm cyffredinol. Awgrymodd sawl un y gallai gwybodaeth gliriach, a chyfathrebu gwell, helpu gofalwyr i ddeall sut mae newidiadau mewn amgylchiadau yn effeithio ar eu hawl.

84. Tynnodd sefydliadau sylw hefyd at bwysigrwydd dull mwy cydgysylltiedig sy'n helpu gofalwyr i ddeall sut mae enillion, hawl a chymorth yn rhyngweithio ar draws y ddwy system.

85. Awgrymodd rhai y gallai mwy o gysondeb rhwng y ddau fudd-dal wneud cymorth yn haws i'w ddeall a lleihau'r angen i ofalwyr ymdopi â gwahanol reolau, cyfrifiadau a threfniadau Yswiriant Gwladol.

86. Nododd sefydliadau hefyd y gallai fod angen i ofalwyr ddeall dwy set o reolau, gofynion adrodd a chyfrifiadau ar yr un pryd. Awgrymodd rhai y gallai hyn ei gwneud hi'n anoddach i ofalwyr ragweld sut y byddai newidiadau mewn enillion neu amgylchiadau yn effeithio ar eu cymorth cyffredinol.

Trefniadau talu

Trosolwg

87. Mae'r bennod hon yn crynhoi yr hyn y dywedodd yr ymatebwyr wrthym am fanteision ac anfanteision posibl talu'r Lwfans Gofalwr bedair wythnos mewn ôl-daliadau. Trafododd yr ymatebwyr y cynnig mewn perthynas â gordaliadau, cywirdeb taliadau, cyllidebu, sicrwydd ariannol a sut y byddai unrhyw newid yn cael ei gyflwyno.

88. Nododd yr ymatebwyr fanteision a heriau posibl. Roedd rhai o'r farn y gallai talu mewn ôl-ddyledion olygu y gall hawl fod yn seiliedig ar wybodaeth fwy cyfredol am enillion a lleihau'r risg o ordaliadau. Roedd eraill yn pryderu ynghylch sut y gallai aros yn hirach am daliad effeithio ar ofalwyr sy'n dibynnu ar y Lwfans Gofalwr i dalu costau byw hanfodol.

89. At ei gilydd, roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at gyfaddawd rhwng gwella cywirdeb taliadau ac amddiffyn sicrwydd ariannol tymor byr gofalwyr.

Manteision posibl

90. Nododd rhai o'r ymatebwyr fanteision posibl talu'r Lwfans Gofalwr bedair wythnos mewn ôl-daliadau. Y fantais a nodwyd amlaf oedd gostyngiad canfyddedig mewn gordaliadau. Roedd yr ymatebwyr a gododd y mater hwn yn aml yn teimlo y gallai defnyddio gwybodaeth fwy cyfredol am enillion arwain at daliadau mwy rhagweladwy a lleihau'r risg y byddai gofyn i ofalwyr ad-dalu arian yn ddiweddarach. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr hefyd y gallai penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth am enillion wedi'u cadarnhau wella trefniadau gweinyddu a sicrhau ei bod yn haws deall hawl.

"Byddai'n well gan y byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws rhagweld a deall ac atal gordaliadau."

Gofalwr dienw

91. Fodd bynnag, mynegodd rhai pobl bryderon y gallai newidiadau i drefniadau talu effeithio ar eu gallu i gyllidebu a chyllid eu cartref, yn enwedig lle mae'r Lwfans Gofalwr yn rhan bwysig o incwm eu cartref.

"Mae gofalwyr yn defnyddio'r Lwfans Gofalwr i bontio'r bwlch mewn cyllid. Pe bai'n cael ei dalu mewn ôl-ddyledion byddai problemau mewn perthynas â bwyd a thanwydd yn achosi mwy o galedi."

Unigolyn dienw nad yw'n ofalwr

Cyflwyno unrhyw newid

92. Tynnodd yr ymatebwyr a'r sefydliadau sylw yn aml at ddealltwriaeth a chyfathrebu fel ffactorau pwysig wrth atal camgymeriadau a lleihau ansicrwydd.

93. Canolbwyntiodd rhai o'r ymatebwyr llai ar y trefniant talu ei hun a mwy ar sut y byddai unrhyw newid yn cael ei gyflwyno. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn bwysigrwydd cyfathrebu clir, rhybudd digonol ac esboniadau syml ynghylch beth y byddai unrhyw drefniadau newydd yn ei olygu yn ymarferol. Tynnodd rhai sylw hefyd at yr angen am gymorth priodol yn ystod unrhyw gyfnod o drawsnewid i gylch talu newydd.

Tystiolaeth sefydliadol

94. Roedd llawer o gyflwyniadau gan sefydliadau yn cydnabod y gallai talu'r Lwfans Gofalwr bedair wythnos mewn ôl-ddyledion gefnogi'r defnydd o wybodaeth fwy cyfredol am enillion, gwella cywirdeb taliadau a lleihau'r risg o ordaliadau. Fodd bynnag, roedd y safbwyntiau ar y cynnig yn gymysg, gyda phryderon ynghylch yr effaith bosibl ar ofalwyr sy'n dibynnu ar daliadau rheolaidd i dalu costau pob dydd.

95. Tynnodd llawer o sefydliadau sylw at bwysigrwydd cyflwyno unrhyw newidiadau yn ofalus. Gwnaethant dynnu sylw at yr angen i osgoi bylchau mewn incwm, rhoi gwybodaeth glir a rhybudd digonol i ofalwyr, ac ystyried yr effaith ar ofalwyr sydd ag incwm isel, cynilion cyfyngedig neu enillion sy'n amrywio.

96. Galwodd rhai sefydliadau am amddiffyniad a diogelwch dros dro rhag caledi, a phwysleisiodd safbwyntiau ehangach bwysigrwydd gweithredu fesul cam a rhoi rhybudd digonol cyn unrhyw newid.

97. Tynnodd sawl sefydliad sylw at faterion gweithredol ehangach hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys gwneud defnydd gwell o wybodaeth enillion CThEF i nodi problemau posibl yn gynharach, lleihau dibyniaeth ar gyfrifiadau ôl-weithredol, helpu gofalwyr i ddeall sut mae enillion yn effeithio ar hawl, a sicrhau bod newidiadau'n cael eu cefnogi gan ddulliau cyfathrebu clir ac enghreifftiau ymarferol.

Gofalu, astudio a chyfleoedd yn y dyfodol

Trosolwg

98. Mae'r bennod hon yn crynhoi'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym am astudio wrth ddarparu gofal a dylanwad y rheol astudio 21 awr.

99. Cyfeiriodd bron hanner yr ymatebwyr a roddodd ateb o sylwedd at gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu sgiliau.

100. Yn aml, trafododd yr ymatebwyr addysg yng nghyd-destun cyfleoedd yn y dyfodol, cyflogaeth ac annibyniaeth ariannol. Teimlai llawer y dylai cyfrifoldebau gofalu barhau i fod yn brif ystyriaeth wrth benderfynu ar gymorth gan gwestiynu a ddylai cyfranogiad addysgol effeithio ar y cymorth hwn, pan fydd cyfrifoldebau gofalu yn parhau i fod yr un fath.

Cyfleoedd yn y dyfodol

101. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod addysg a hyfforddiant yn gyfleoedd i wella rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol a chynyddu cyfleoedd yn y dyfodol. Disgrifiodd rhai y trefniadau presennol fel rhai sy'n creu dewis rhwng cynnal cymorth a dilyn addysg neu hyfforddiant. Dywedodd y cyfranogwyr wrthym na ddylai gofalwyr orfod dewis rhwng parhau i ddarparu gofal a pharatoi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Roedd hyn yn arbennig o gyffredin ymhlith yr ymatebwyr iau a'r rhai oedd yn ystyried ailhyfforddi neu ddychwelyd i addysg.

"Dylid annog a chefnogi gofalwyr di-dâl i barhau â'u haddysg lle bynnag y bo modd." Gall ennill cymwysterau wella cyfleoedd cyflogaeth, annibyniaeth ariannol a llesiant yn y dyfodol, gan helpu gofalwyr hefyd i barhau'n gysylltiedig â'u cymunedau."

Gofalwr dienw sy'n fyfyriwr

Tystiolaeth sefydliadol

102. Tynnodd sawl sefydliad sylw at y ffaith bod cymorth i fyfyrwyr sy'n gofalu yn ymestyn y tu hwnt i'r Lwfans Gofalwr yn unig. Gwnaethant nodi y gallai fod angen i ofalwyr ymdrin â chyfuniad o gyllid addysg, cyllid myfyrwyr, hawl i fudd-daliadau a chymorth sydd ar gael drwy ddarparwyr addysg. Awgrymodd sefydliadau y gall gwahaniaethau rhwng y systemau hyn ei gwneud hi'n anodd i ofalwyr ddeall pa gymorth sydd ar gael ac y gall ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch a ddylid astudio, pa gwrs i'w ddilyn a sut i gydbwyso astudio â chyfrifoldebau gofalu. Roedd enghreifftiau'n cynnwys gofalwyr yn dewis cwrs, dull astudio neu ddwysedd astudio penodol oherwydd yr effaith ar gymorth ariannol, yn hytrach nag am fod y dewis hwnnw yn adlewyrchu eu nodau addysgol neu eu nodau gyrfa gorau, a phryderon y gallai'r trefniadau presennol effeithio ar fynediad at gymwysterau a chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol i rai gofalwyr ifanc.

103. Tynnodd sefydliadau sylw hefyd at y ffaith y gallai cymorth amrywio yn ôl oedran person, y math o gwrs a'r lefel astudio. Nododd rhai y gallai gofalwyr ar gyrsiau penodol neu ar wahanol gamau o addysg gael mynediad at wahanol fathau o gymorth, a phwysleisiodd eraill mai dim ond drwy lwybrau astudio llawn amser y mae rhai cymwysterau proffesiynol ar gael, gan greu profiadau gwahanol i ofalwyr mewn addysg bellach, addysg uwch ac astudiaethau ôl-raddedig.

Profiadau ehangach o'r Lwfans Gofalwr

Trosolwg

104. Mae'r bennod hon yn ystyried materion ehangach a godwyd gan yr ymatebwyr nad ydynt wedi'u trafod yn y penodau blaenorol.

105. Ar draws y materion hyn, yn aml, disgrifiodd yr ymatebwyr ofalu fel cyfrifoldeb parhaus a allai fod yn ddwys, yn anrhagweladwy ac yn anodd ei osod o fewn rheolau cymhwystra sefydlog. Soniodd llawer ohonynt hefyd am y Lwfans Gofalwr fel cymorth ariannol a chydnabyddiaeth o'r cyfraniad a wneir gan ofalwyr di-dâl.

106. Yn aml, roedd gwahanol grwpiau o ymatebwyr yn tynnu sylw at wahanol agweddau ar y Lwfans Gofalwr. Roedd gofalwyr oedran pensiwn yn pwysleisio cydnabyddiaeth a pharhad, ond roedd gofalwyr a oedd yn oedolion ifanc yn canolbwyntio'n amlach ar addysg a chyfleoedd yn y dyfodol. Darparodd cyflwyniadau gan sefydliadau dystiolaeth ehangach ynghylch sut roedd rheolau budd-daliadau a phrosesau gweinyddol yn effeithio ar y profiadau hyn yn ymarferol.

Lefel y cymorth ariannol

107. Trafododd llawer o'r ymatebwyr lefel y Lwfans Gofalwr ac a oedd yn cynnig digon o gymorth o ystyried yr amser a oedd yn gysylltiedig â gofalu a'i effaith ar gyfleoedd eraill.

108. Roedd y sylwadau hyn yn ymwneud â chyfanswm y Lwfans Gofalwr yn hytrach na'r trothwy enillion. Yn aml, nododd yr ymatebwyr bod y Lwfans Gofalwr yn bwysig ond eu bod yn teimlo nad oedd yn adlewyrchu'n llawn ddwysedd y gofalu nac effaith ariannol ehangach darparu gofal.

109. Dywedodd gofalwyr nad ydynt yn gweithio, a'r rhai sy'n gweithio ac yn gofalu, wrthym hefyd nad oedd yn realistig iddynt wneud mwy o waith â thâl, oherwydd lefel y gofal roeddent yn ei darparu.

Trefniadau gofalu gwahanol

110. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn dadlau fod dwysedd neu gyfrifoldeb gofalu yn bwysicach na nifer yr oriau a dreuliwyd yn gofalu.

111. Soniodd yr ymatebwyr a oedd yn gofalu am fwy nag un person yn aml am ofynion cyfunol cefnogi sawl aelod o'r teulu. Roedd rhai yn cwestiynu pam nad oedd y cymorth yn ystyried nifer o rolau gofalu, a thynnodd eraill sylw at drefniadau ar y cyd lle roedd cyfrifoldeb yn cael ei rannu rhwng gwahanol bobl neu aelwydydd.

Gofalu y tu hwnt i oedran Pensiwn y Wladwriaeth

112. Pensiwn y Wladwriaeth oedd un o'r themâu a drafodwyd amlaf. Yn aml, disgrifiodd yr ymatebwyr gyfrifoldebau gofalu a oedd yn parhau y tu hwnt i oedran pensiwn gan drafod a oedd y cymorth a'r gydnabyddiaeth yn parhau i adlewyrchu'r cyfrifoldebau hynny. Canolbwyntiodd rhai ar ganlyniadau ariannol, a chanolbwyntiodd eraill ar gydnabyddiaeth a pharhad cymorth.

113. Nododd gofalwyr o oedran pensiwn eu bod yn parhau i ddarparu gofal ar ôl cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Trafododd sawl un wahaniaeth canfyddedig rhwng parhad eu cyfrifoldebau gofalu a newidiadau yn y cymorth neu'r gydnabyddiaeth ariannol sydd ar gael iddynt.

114. Yn aml, cododd yr ymatebwyr hyn gan gyfeirio at degwch a chydnabyddiaeth yn ogystal ag incwm. Eu pwynt canolog oedd nad oedd cyrraedd oedran pensiwn o reidrwydd yn lleihau'r gofal roeddent yn ei ddarparu nac yn golygu bod y gofal hwnnw yn dod i ben.

"Mae nifer enfawr o ofalwyr yn bensiynwyr nad ydynt yn gymwys i gael unrhyw fudd-daliadau. Mae hyn yn annheg iawn. Rwy'n gwario fy nghynilion oes i roi cymorth i fy ngŵr: sy'n golygu, pan fydd angen gofal arnaf i, na fyddaf yn gallu fforddio hynny."

Gofalwr dienw sy'n 65 oed neu'n hŷn

Newidiadau mewn amgylchiadau gofalu

115. Trafododd rhai o'r ymatebwyr beth oedd yn digwydd pan fyddai trefniadau gofalu yn newid dros dro neu'n dod i ben. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys cyfnodau pan oedd y person oedd yn derbyn gofal yn yr ysbyty, seibiannau dros dro mewn gofal a phrofedigaeth. Mynegodd rhai pobl bryder ynghylch a oedd y cymorth yn parhau i adlewyrchu amgylchiadau'r gofalwr yn ystod y cyfnodau hyn.

Cydnabyddiaeth o ofalu

116. Ar draws y materion ehangach hyn, roedd yr ymatebwyr yn aml yn dychwelyd at bwysigrwydd cydnabod y gofal a ddarparwyd ganddynt. Roedd hyn yn cynnwys gofalwyr nad oeddent yn gallu gweithio, y rhai a oedd yn gofalu am fwy nag un person a'r rhai yr oedd eu cyfrifoldebau gofalu yn parhau ar ôl cyrraedd oedran pensiwn neu yn ystod newidiadau yn amgylchiadau'r person roeddent yn gofalu amdano.

Tystiolaeth sefydliadol

117. Roedd cyflwyniadau gan sefydliadau yn atgyfnerthu'n fras lawer o'r themâu a godwyd gan yr ymatebwyr ar safbwyntiau ehangach ar brofiad o'r Lwfans Gofalwr. Roedd cefnogaeth eang o blaid adolygu gwerth cyffredinol y Lwfans Gofalwr a

phwyslais cryf ar gydnabod y cyfraniad a wneir gan ofalwyr di-dâl. Tynnodd sefydliadau sylw hefyd at bwysigrwydd ystyried gofalwyr sy'n methu ag ymgymryd â gwaith â thâl oherwydd dwysedd neu hyd eu cyfrifoldebau gofalu.

118. Cododd sefydliadau gwestiynau hefyd ynghylch a yw'r trefniadau presennol yn adlewyrchu profiadau rhai grwpiau o ofalwyr yn llawn, gan gynnwys y rhai sy'n gofalu am fwy nag un person, gofalwyr y mae eu cyfrifoldebau'n parhau y tu hwnt i oedran Pensiwn y Wladwriaeth a gofalwyr y mae eu hamgylchiadau'n newid yn dilyn profedigaeth neu dderbyniad i'r ysbyty.

119. Tynnodd sawl sefydliad sylw at y ffaith bod cyfrifoldebau gofalu yn aml yn parhau yn ystod cyfnodau pan fyddai unigolyn wedi'i dderbyn i'r ysbyty ac ar ôl oedran Pensiwn y Wladwriaeth, hyd yn oed lle bydd hawl neu gymorth ariannol o bosibl yn newid. Soniodd rhai hefyd am yr anawsterau y gall gofalwyr eu hwynebu yn dilyn profedigaeth, gan gynnwys effaith gyfunol galar a newidiadau mewn cymorth ariannol.

120. Tynnodd sefydliadau sylw hefyd at gymhlethdod trefniadau cymorth ehangach ar gyfer gofalwyr hŷn. Nododd rhai nad yw pobl bob amser yn deall yr hawl sylfaenol i'r Lwfans Gofalwr, Ychwanegiad Gofalwr y Credyd Pensiwn, neu gymorth cysylltiedig, a gwnaethant awgrymu y gallai gwybodaeth gliriach helpu gofalwyr i ddeall pa gymorth a all fod ar gael. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at wahaniaethau yn y diogelwch Yswiriant Gwladol a ddarperir drwy'r Lwfans Gofalwr ac Elfen Gofalwr y Credyd Cynhwysol a dadlau y dylai gofalwyr sy'n bodloni amodau gofalu cyfatebol dderbyn diogelwch Yswiriant Gwladol cyfatebol, ni waeth pa fudd-dal y maent yn ei hawlio.

121. Roedd gwybodaeth glir a hygyrch yn thema gyson ar draws cyflwyniadau gan sefydliadau. Tynnodd sefydliadau sylw at bwysigrwydd helpu gofalwyr i ddeall eu hawl, gwella ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael a sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau sy'n diwallu gwahanol anghenion.

122. Rhybuddiodd sefydliadau hefyd na ddylid dibynnu'n llwyr ar lwybrau digidol, yn enwedig lle roedd gan ofalwyr fynediad digidol cyfyngedig neu lle roedd angen cymorth arnynt i ddeall sut roedd gwahanol fudd-daliadau'n gweithio gyda'i gilydd.

Y camau nesaf

Ystyried y dystiolaeth

123. Mae'r Cais am Dystiolaeth yn gyfraniad pwysig at waith yr Adran i ystyried sut y gellid moderneiddio'r Lwfans Gofalwr.

124. Bydd y Llywodraeth yn ystyried y canfyddiadau hyn ochr yn ochr â thystiolaeth ehangach a gwaith dadansoddi polisïau. Bydd y cyflwyniadau a'r adroddiadau manwl a ddarperir gan sefydliadau hefyd yn parhau i lywio'r gwaith hwn.

125. Gyda'i gilydd, bydd y ffynonellau hyn yn helpu i lywio'r broses o ystyried y polisi a'r trefniadau gweinyddu ar gyfer y Lwfans Gofalwr yn y dyfodol.

Atodiad A: Sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth

Advice NI

Global Women’s Strike (GWS)

Sefydliad cynghori (ymddengys mai gwasanaeth lleol sy'n rhoi cyngor ar les ydyw)

Age UK

Fforwm Cymru Gyfan ar gyfer Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)

Cyngor ar Bopeth Brancab Bedworth, Rugby a Nuneaton

Cyngor Swydd Buckingham / Partneriaeth Gofalwyr Swydd Buckingham

Care Advice Line (wedi'i chomisiynu gan Gyngor Sir Swydd Gaerloyw)

Care Full

Carents.co.uk

Menter Gymdeithasol / Sefydliad Cymunedol Cymorth i Ofalwyr

Cyflwyniad ar Reolau o ran Enillion y Lwfans Gofalwr (cyflwyniad unigol/grŵp, nid yw'r sefydliad yn glir)

Carers Coalition Northern Ireland

Rhwydwaith Gofalwyr

Carers NI

Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Carers UK

Canolfan y Gyfraith Canolbarth Lloegr

Centre for Care (canolfan ymchwil dan arweiniad Prifysgol Sheffield)

CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth)

Cyngor ar Bopeth Lerpwl

Cyngor ar Bopeth Middlesbrough (MCAB)

Contact

Ymddiriedolaeth Ffeibrosis Systig

Disability Rights UK

Dr Michèle Javary (cynghorydd ar hawliau lles unigol)

Cyngor Sir Dwyrain Sussex

ESCaD Carers Building the Resistance

Ffederasiwn Busnesau Bach

Feeding Britain

Cyngor Dosbarth Fermanagh ac Omagh

Cyflwyniad Cymdeithas Tai / Cyngor Tai (nid enwyd sefydliad penodol yn y teitl)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Independent Age

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith

Mencap

Mobilise

MoneySavingExpert.com (MSE)

Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor (mae cynnwys y cyflwyniad yn dynodi elusen MND)

nCompass

Undeb a Fforwm Gofalwyr Di-dâl Cenedlaethol (NUCUF)

Fforwm Gofalwyr Casnewydd

Parkinson's UK

Rethink Mental Illness

Right to Care, Right to Rest

Cyngor UM, Cyngor UM, Undeb Myfyrwyr y Frenhines, Prifysgol y Frenhines Belfast

Uned Hawliau Lles Surrey (SWRU)

Y Lleng Frenhinol Brydeinig

Wages for Housework Campaign / Global Women's Strike /

Welfare Benefits Unit (Caerefrog)

Women's Regional Consortium NI

Elusen Hawliau Lles / Sefydliad Cynghori

Atodiad B: Cwestiynau'r Cais am Dystiolaeth

Adran 1: Amdanoch chi / profiad

C1: Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau? (dewiswch un)

- *Gofalwr sy'n cael y Lwfans Gofalwr*
- *Gofalwr nad yw'n cael y Lwfans Gofalwr*
- *Unigolyn sy'n cael gofal*
- *Sefydliad / corff cynrychioliadol*
- *Arall (nodwch)*

C2: Os gwnaethoch ddewis un o'r tri opsiwn cyntaf uchod, dywedwch ychydig yn fwy wrthym amdanoch (dewisol).

Oedran

- *O dan 25 oed*
- *25–34*
- *35–44*
- *45–54*
- *55–64*
- *65+*
- *Gwell gennyf beidio â dweud*

Beth yw eich rhywedd? (dewisol – rhowch hunanddisgrifiad o dan Arall)

- *Menyw*
- *Dyn*
- *Anneuaidd*
- *Gwell gennyf beidio â dweud*

Arall

Ethnigrwydd

- *Asiaidd / Asiaidd Prydeinig*
- *Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig*
- *Grwpiau ethnig cymysg / lluosog*
- *Gwyn*
- *Grŵp ethnig arall: [testun rhydd]*
- *Gwell gennyf beidio â dweud*

Lleoliad

- *Lloegr*
- *Yr Alban*
- *Cymru*

- *Gogledd Iwerddon*
- *Byw y tu allan i'r DU*
- *Gwell gennyf beidio â dweud*

Adran 2: Patrymau modern gwaith am dâl

Lle mae enillion gofalwyr yn amrywio, mae'r Adran ar hyn o bryd yn edrych i weld a ellir canfod patrwm enillion er mwyn cyfrifo cyfartaledd yr enillion dros nifer o wythnosau. Gall y cyfnod a ddefnyddir amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Rydym yn gwybod y gall y rheolau presennol fod yn anodd eu deall, yn enwedig lle mae enillion yn amrywio, ac rydym yn awyddus i ddeall sut y gallwn wella'r ffordd y mae hyn yn cael ei egluro a'i gymhwyso. Rydym am wybod pa welliannau, os o gwbl, allai gynnig gwell cymorth i ofalwyr y mae eu henillion yn amrywio. Mae hyn yn cynnwys ystyried y ffordd y mae'r system yn cydbwyso rhagweladwyedd (gallu deall ymlaen llaw sut y bydd enillion yn cael eu trin) a hyblygrwydd (adlewyrchu amgylchiadau unigol).

C3: Pa mor dda ydych chi'n deall y rheolau presennol ynghylch sut y gallai enillion effeithio ar Lwfans Gofalwr unigolion?

- *Yn dda iawn*
- *Yn eithaf da*
- *Niwtral*
- *Yn eithaf gwael*
- *Ddim yn dda o gwbl*

C4: Sut y gellid gwella'r system i gynnig gwell cymorth i ofalwyr y mae eu henillion yn amrywio? A ddylai'r Adran ystyried rhoi dulliau mwy rhagweladwy o gyfrifo cyfartaledd enillion ar waith neu gadw'r dull presennol?

C5: A fyddai cyfrifo cyfartaledd enillion dros gyfnodau byr, penodol yn helpu gofalwyr? Er enghraifft, cyfrifo cyfartaledd enillion bob amser dros gyfnod o 8 wythnos neu 16 wythnos. Os byddai, pa gyfnod o wythnosau fyddai orau yn eich barn chi?

Mae'r Adran yn archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno tapr enillion yn lle'r terfyn enillion ymyl dibyn wythnosol presennol ar gyfer y Lwfans Gofalwr. Ar hyn o bryd, mae taliadau'r Lwfans Gofalwr yn dod i ben os bydd enillion yn mynd uwchlaw'r terfyn wythnosol. Un dewis arall posibl fyddai i swm y Lwfans Gofalwr leihau'n raddol wrth i enillion godi uwchlaw swm penodol, yn hytrach na dod i ben yn llawn fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Gelwir hyn yn dapr enillion.

Mae ffyrdd gwahanol y gallai hyn weithio. Byddai angen gwneud penderfyniadau ynghylch cyfradd unrhyw dapr a lefel yr enillion y caiff ei gymhwyso ati, gan gynnal gwerth i'r trethdalwr ar yr un pryd.

C6: Pe bai'r Lwfans Gofalwr yn cael ei leihau'n raddol wrth i enillion gynyddu (tapr enillion), pa ddull fyddai'n well gennych?

- *Caniatáu i bobl ennill mwy cyn i'r Lwfans Gofalwr ddechrau lleihau, ond yna ei leihau'n gyflymach*

- *Dechrau lleihau'r Lwfans Gofalwr ar lefel enillion is, ond ei leihau'n fwy graddol*
- *Dull arall (eglurwch)*

C7: Beth ddylai fod bwysicaf wrth gynllunio unrhyw newidiadau i sut mae enillion yn effeithio ar y Lwfans Gofalwr?

Rhestrwch yn nhrefn blaenoriaeth beth sydd bwysicaf i chi.

- *bod yn syml ac yn hawdd ei ddeall*
- *bod yn rhagweladwy (gwybod ymlaen llaw sut mae enillion yn effeithio ar daliadau)*
- *caniatáu hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau gwahanol*
- *lleihau'r risg o ordaliadau*
- *cadw'r system yn fforddiadwy*

C8: Pa ffactorau ddylai bennu lle mae tapr enillion yn dechrau ac yn gorffen? Er enghraifft, a ddylai ddechrau ar derfyn enillion y Lwfans Gofalwr (£204 ar hyn o bryd) neu islaw neu uwchlaw'r terfyn? Faint, yn eich barn chi, y gallai rhywun ei ennill ochr yn ochr â gofalu cyn i'r tapr ddod i ben?

C9: Sut y dylai'r Adran gyfleu tapr enillion? Beth fyddai'n helpu pobl i ddeall sut y byddai gostyngiad graddol wrth dalu'r Lwfans Gofalwr yn effeithio arnynt yn ymarferol?

Mae tua dwy ran o dair o'r bobl sy'n cael y Lwfans Gofalwr hefyd yn cael Credyd Cynhwysol. Gall hyn gynnwys cymorth ychwanegol i ofalwyr drwy ychwanegiad gofalwr. Pan fydd rhywun yn cael y ddau fudd-dal, ystyrir y Lwfans Gofalwr fel incwm, sy'n golygu bod swm y Credyd Cynhwysol yn cael ei gynyddu gan yr ychwanegiad gofalwr ond yna'n cael ei leihau gan yr incwm o'r Lwfans Gofalwr.

Mae'r Lwfans Gofalwr yn arwain at gyfraniad Yswiriant Gwladol mwy hael na Chredyd Cynhwysol, ond telir Credyd Cynhwysol ar gyfradd uwch na'r Lwfans Gofalwr a chaiff enillion eu trin mewn ffordd fwy hael. Mae'r Lwfans Gofalwr yn fudd-dal unigol nad yw'n ystyried cyfalaf nac incwm heblaw enillion, ond mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal ar sail aelwyd sy'n dibynnu ar brawf modd.

Mae'r Adran yn ystyried sut y gall y ddwy system gydweithio orau yn y dyfodol fel ei bod yn haws eu deall.

C10: Sut y dylai'r Adran sicrhau bod y cymorth i ofalwyr di-dâl drwy'r Lwfans Gofalwr a Chredyd Cynhwysol yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd i'r rhai sy'n cael y ddau?

Adran 3: Materion sy'n ymwneud â thalu a ffynonellau cymorth eraill

Ar hyn o bryd, mae 60% o dderbynwyr y Lwfans Gofalwr yn cael eu talu'n wythnosol ymlaen llaw, ac mae 40% yn cael eu talu un wythnos ymlaen llaw a thair wythnos mewn ôl-daliadau. Byddai talu pedair wythnos mewn ôl-daliadau yn caniatáu mwy o amser i roi gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau a'u prosesu. Gallai hyn helpu i leihau gordaliadau. Byddai hefyd yn caniatáu i'r Adran wneud y defnydd gorau o ddata enillion gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

C11: Beth fyddai manteision ac anfanteision talu'r Lwfans Gofalwr bedair wythnos mewn ôl-daliadau?

Mae'r Lwfans Gofalwr ar gael i fyfyrwyr sydd ar gyrsiau rhan-amser am lai nag 21 awr yr wythnos. Mae myfyrwyr llawn amser sy'n darparu gofal am 35 awr neu fwy yr wythnos yn cael eu cefnogi drwy'r systemau cyllid myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn creu gwahaniaeth rhwng y rhai sy'n astudio islaw ac uwchlaw'r trothwy hwn.

C12: Beth yw'r ffordd orau o nodi gofalwyr di-dâl a'u cefnogi i gyfuno astudio â'u cyfrifoldebau gofalu lle y gallant? Sut mae'r rheol 21 awr yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch astudio?

Adran 4: Safbwyntiau ehangach ar eich profiad o'r Lwfans Gofalwr

C13: C13 Rydym yn cydnabod y gallai fod gan bobl safbwyntiau ehangach ar y Lwfans Gofalwr a'r ffordd y mae'n gweithio. Yn eich barn chi, a oes agweddau eraill ar y Lwfans Gofalwr y byddai'n ddefnyddiol i'r Adran eu deall?

Rhestr termau

- *Cyfrifo cyfartaledd enillion: edrych ar enillion dros gyfnod penodol (er enghraifft sawl wythnos) i gyfrifo cyfartaledd, yn hytrach nag asesu pob wythnos yn unigol.*
- *Terfyn enillion: y swm uchaf y gall rhywun ei ennill bob wythnos a pharhau i gael y Lwfans Gofalwr.*
- *Ymyl dibyn: lle mae'r Lwfans Gofalwr yn dod i ben yn llwyr os bydd enillion yn mynd uwchlaw'r terfyn.*
- *Tapr enillion: dewis amgen lle byddai'r Lwfans Gofalwr yn lleihau'n raddol wrth i enillion gynyddu, yn lle dod i ben yn llwyr ar unwaith.*
- *Disgresiwn: lle mae'r Adran yn pwyso a mesur amgylchiadau unigol yn hytrach na chymhwyso rheolau sefydlog.*
- *Rhagweladwyedd: gallu deall ymlaen llaw sut y bydd enillion yn effeithio ar hawl.*
- *Hyblygrwydd: galluogi'r system i adlewyrchu amgylchiadau unigol gwahanol.*
- *Talu mewn ôl-daliadau: telir y Lwfans Gofalwr mewn ôl-daliadau, sy'n golygu bod y taliad yn cael ei wneud ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r hawl i'r lwfans wedi'i sefydlu ar ei gyfer.*

Atodiad C: Methodoleg a sicrhau ansawdd

Methodoleg

1. O ystyried y nifer mawr o ymatebion a gafwyd, defnyddiodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ddeallusrwydd artiffisial (AI) i helpu i drefnu, grwpio ac adolygu'r dystiolaeth. Roedd hyn o gymorth wrth sicrhau proses effeithlon a chyson o ddadansoddi ymatebion. Fodd bynnag, pobl oedd yn arwain y gwaith dadansoddi o hyd, ac roedd adolygwyr yn gyfrifol am ddehongli, cyd-destunoli, a llunio barn ar bolisïau.
2. Roedd y fframwaith yn cynnwys pum cam gwahanol, gan alluogi'r gwaith dadansoddi i symud yn systematig o dynnu tystiolaeth i feithrin dealltwriaeth, gan gadw'r gallu i olrhain themâu yn ôl i ymatebion unigol.
3. Cafodd cyflwyniadau yn seiliedig ar brofiad bywyd, gan gynnwys manylion emosiynol neu aflinol, eu trin fel rhai sy'n cyfateb i gyflwyniadau a ddrafftiwyd yn broffesiynol o safbwynt dadansoddol.
4. Roedd yr allbynnau hefyd yn destun adolygiadau dynol strwythuredig at ddibenion sicrhau ansawdd.